YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

10 Mehefin 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,





*Cystadlu Eisteddfod yr Urdd 2024*

**Eisteddfod yr Urdd:** Llongyfarchiadau mawr i'n holl ddisgyblion a gystadlodd yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod dros y Sulgwyn a hynny gyda gymaint o egni a brwdfrydedd. Hoffwn longyfarch bawb a fu wrthi'n perfformio ond clod arbennig i Rafik Harrington ar gael ei osod yn 2il yn un o brif seremoniau'r wythnos sef 'Tlws y Cyfansoddwr'. Llongyfarchiadau i Owen Frohawk, (Unawd Chwythbrennau); Matthew Bill, Cian Glyn, Jac Johns (Ensemble Leisiol), Cian Glyn (Unawd Llefaru); Rose Datta (Unawd Sioe Gerdd) ar ennill medalau aur ac i Tom Davies (Unawd Piano), Parti Bechgyn, a Mari Fflur Thomas (Llefaru Unigol) ar dderbyn medalau arian. Llongyfarchiadau hefyd i Rhodri Davies Bl 7 a Tamsin James Bl8 ar fedalau aur yn yr arddangosfa gelf, i Gwynfor Jones a Lara Osborne ar ennill gwobrau Mathemateg yr Eisteddfod. Braf hefyd llongyfarch Elen Thomas Evans a Ruby James ar ennill medalau efydd yn y gwaith cartref.




*Blwyddyn 7 ar ei ffordd i Wembley!*

**Wembley:** Am yr ail dro yn hanes yr ysgol llwyddodd ein tîm rygbi gynghrair blwyddyn 7 i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Prydain Fawr. Chwaraeodd y tîm ar Wembley ar yr 8fed o Fehefin – profiad arbennig. Er colli oedd hanes y rownd derfynol yn erbyn tîm cryf St Peters o Wigan, roedd cyrraedd mor bell yn dipyn o gamp, ac yn brofiad bythgofiadwy i'r disgyblion.



*Taith i Barc Treftadaeth y Rhondda*

**Taith i Barc Treftadaeth y Rhondda:** Mae Blwyddyn 7, fel rhan o'u gwersi Cymraeg/Coron Gwlad, yn mynychu ymweliad addysgol ag Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn ystod mis Mai. Mae'r profiad mwyngloddio Cymreig hwn yn gysylltiedig â'r gwaith y maent yn ei ddysgu yn eu gwersi. Maent yn astudio "Pwll i Borthladd", gan ddechrau gyda'r daith hon, ac yn gorffen gydag ymweliad â Bae Caerdydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r daith i Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn cynnwys tair gweithgaredd, sef Taith yr Aur Du, Taith Gerdded ar Lwybr y Dramffordd, a chasglu ffeithiau diddorol yn yr Arddangosfa.

**Rhieni Bl7:** Hoffem ddiolch i rieni Bl7 sydd wedi ymateb i'r cynnig i ymestyn ein rhaglen dyfais un i un i gynig Crômlyfr i bob disgybl wrth iddynt gyrraedd Tymor yr Hydref ym Ml8. Gofynnwn yn garedig i rieni sydd heb ymateb (drwy ParentPay) i wneud hynny cyn diwedd mis Mehefin er mwyn symud ymlaen gyda'r cynnig. Byddem yn disgwyl i fwyafrif llethol o rieni dderbyn y cynnig am ddyfais wedi'i sybsideiddio ar gyfer eu plentyn.

**Bl12 yn dychwelyd:** Rydym yn falch o groesawu myfyrwyr Bl12 yn ôl i'r ysgol ar gyfer gwersi a pharatoi ar gyfer Bl13. Mae rhaglen lawn o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau dyddiau

agored, gweithdai UCAS, gweithdai ar gyfer Meddygaeth a Deintyddiaeth yn ogystal a chyfnodau astudio ar gyfer cyrsiau Safon Uwch.


*Taith yr Adran Gerdd*

**Taith yr Adran Gerdd:** Mynychodd rhai o ddisgyblion iau'r ysgol Weithdy Cerdd gyda Gamelan ar ddechrau'r wythnos diwethaf yn Nghanolfan y Chapter. Cyfle oedd hyn i arbrofi gydag offerynnau newydd a phrofi cerddoriaeth draddodiadol o Indonesia.

**Gwisg Ysgol**: Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn y wisg gywir. Mi fydd diffyg cydymffurfio gyda gofynion y wisg ysgol yn cael ei gofnodi ar Classcharts, er mwyn eich hysbysu a'ch bod yn gallu ein cefnogi i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu yn y wisg gywir.

**Caffi Lles Rhieni :** Bydd ein caffi lles i rieni nesaf, yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher y 19eg o Fehefin am 14:00 yn yr ysgol. Cyfle yw hwn i rieni cwrdd â thrafod lles eu plant gydag arbenigwyr amrywiol. Ffocws ein cyfarfod nesaf ar y 19eg o Fehefin yw: *'Plant sy'n poeni am fynd i'r ysgol'*.


*Blwyddyn 9 ar y traeth Barcelona*

**Taith bêl droed Bl9 i Barcelona:** Roedd yr adran Addysg Gorfforol yn llawn canmoliaeth am ymddygiad, cwrteisi a Chymreictod grŵp o ddisgyblion blwyddyn 9 a fynychodd daith pêl droed i Barcelona dros y Sulgwyn. Fe aethon nhw i weld y Stadiwm Olympaidd, ar lan y môr ym Marcelona a hefyd Eglwys anhygoel y Sagrada Familia. Enillon nhw 2 allan o 3 gem yn ogystal – da iawn fechgyn!



*B8 yn sgwrsio gyda'r Fforwm Busnes*

**Prosiect Pentref – Fforwm Busnes Blwyddyn 8:** Mae Bl8 wedi dechrau ar eu tasg o gynllunio adeilad ar gyfer *Pentref Taf.* Mae wir wedi bod yn hyfryd gweld brwdfrydedd a chreadigrwydd ar waith wrth iddyn nhw gydweithio mewn grwpiau. Rydym yn edrych ymlaen at weld cyflwyniadau pob grŵp Dydd Gwener - 14/6/24, pan fydd disgyblion yn cyflwyno i banel allanol o gwmnïoedd gwahanol. Hoffwn ddiolch i'r cwmnïoedd am eu holl gymorth gyda cyflwyno'r dasg yma i flwyddyn 8. Cwmnïoedd - Willmott Dixon, Pepper Money, Stable, Ty'r Cwmniau, Cardiff Commitment, ISG Construction, Kier Construction, Prifysgol Caerdydd, Tim Cwricwlwm Cyngor Caerdydd; Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro: Gyrfa Cymru a Rio Architects.

**Profion Cenedlaethol** - Fel y nodwyd yn y cylchlythyr diwethaf, cynhelir y profion cenedlaethol i ddisgyblion Bl. 7-9, rhwng Mehefin 17 - 27. Dyma ddolen i'r amserlen: [Profion Cenedlaethol/National Tests]. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod crômlyfr eich plentyn wedi'i **wefru'n llawn** ar gyfer pob prawf (disgyblion Bl. 8+9). Bydd profion Bl. 7 yn cael eu cynnal yn yr Ystafelloedd TGCh.

**Athletau'r Ysgol** - Cynhelir ein Athletau Blynyddol eleni ar ddydd Gwener, Mehefin 28 yn Stadiwm Lecwydd - cewch fwy o fanylion mewn llythyr a anfonir ar Classcharts yr wythnos nesaf.

Yn gywir,



Dyfrig G Rees
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf


*Parti Bechgyn Glantaf*